## Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd

## Adroddiad ar ganlyniad ymchwiliad i gŵyn yn erbyn y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones, Cyngor Gwynedd

1. Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (fel y'i diwygiwyd) ('y Rheoliadau').

2. Yn dilyn ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gŵyn yn erbyn y Cyng. Jones, cyfeiriwyd y mater i Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd am ystyriaeth a phenderfyniad. Ceir manylion o benderfyniad y Pwyllgor yn yr **Atodiad** i'r adroddiad hwn (isod).

3. Yn unol â gofynion y Rheoliadau anfonir copi o'r adroddiad hwn at:

- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd
- Cyng. A. M. Jones
- Cyng. D. Edwards (yr achwynydd)

4. Ar ôl derbyn yr adroddiad hwn rhaid i'r Swyddog Monitro ei osod ar wefan y Cyngor a sicrhau bod copi ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd ym Mhencadlys y Cyngor, Caernarfon. Rhaid hefyd cyhoeddi o'r adroddiad mewn papurau newydd a gylchredir yn yr ardal.

Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd
Rhagfyr 2011

